GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

# Human Papillomavirus (HPV) Vaccination Programme



## Briefing document for head teachers and school staff

This briefing is for schools on the school-aged HPV vaccination programme in Wales.

Please ensure that all school staff who need to know about the programme have access to this information.

**! The HPV vaccine helps protect young people from cancers caused by HPV**

## Eligibility for HPV vaccination

The HPV vaccine is offered **free to all boys and girls** who are **aged 12 to 13 years** (school year 8).

Young people who miss their HPV vaccination in school will be given other opportunities to receive the vaccine before they leave statutory schooling at the end of year 11.

Young people who don't receive their HPV vaccine at school can receive it at their GP surgery up until their 25th birthday (for boys this only applies to those born on or after 1 September 2006).

Some other individuals are at increased risk from HPV so they are also eligible for this vaccine. More information is available at **phw.nhs.wales/HPVvaccine**

**School support with the HPV vaccination programme is highly valued and essential.**

## 3 reasons for having the HPV vaccine:

1. It **cuts the risk of cervical cancer by 90%**, as well as dramatically lowering the rates of other types of HPV related cancers.
2. HPV infects most people in their lifetime, and there are **more than 150 different types**.
3. The vaccine is **safe, effective and easy** to get.

## About the HPV vaccine

Human papillomavirus (HPV) is linked to the development of **a range of cancers and genital warts**. The HPV vaccine is the **safest way** to protect against these diseases.

Evidence is clear that the HPV vaccine helps protect boys and girls against future risks of:

- cervical cancer (in females);
- some head and neck cancers;
- some cancers of the anus;
- some cancers of the genital area (for example penis, vagina and vulva); and
- genital warts.

Head and neck cancers are most common in males with around 700 cases diagnosed in Wales each year.

Cervical cancer is the most common type of cancer in women under 35.

The HPV vaccine is given in the upper arm. In order to give the best protection it should be given before a young person becomes sexually active. Therefore, it is offered to all young people before they come into contact with the virus.

Condoms do not provide complete protection against HPV and as there are lots of different types of this virus, eligible people should still have the vaccine even if they are already sexually active.

For eligible people under 25 years old, evidence shows that only one dose of the HPV vaccine is needed for the best protection. From September 2023, only one dose is offered. More information about this change is available at: **phw.nhs.wales/HPVvaccine**

**The HPV vaccine is excellent at giving protection against HPV and is very safe. It is expected that the vaccine will eventually save thousands of lives each year.**

A full list of the vaccine ingredients and possible side effects are available at **medicines.org.uk/emc** (external site) by entering 'Gardasil 9' into the search box.

## Consent packs and HPV vaccination information

**Consent packs for pupils and their parents or carers** will be supplied to secondary schools before the scheduled school HPV vaccination session. This may be paper based or in a digital format.

**Each consent pack usually contains:**

- A **letter (or email), leaflet and consent form**. The letter and leaflet gives pupils and parents/carers an understanding of the vaccine and its benefits. Information is provided to enable informed consent for young people to receive the HPV vaccine. Some schools will be asked to send these electronically.
- The leaflet is available in **accessible formats** (including Large Print, Easy Read, British Sign Language and Audio). Parents and care givers should be directed to: **phw.nhs.wales/vaccines/accessible-information**
- **A consent form has to be completed before a vaccination is given**. While we recommend that pupils get **agreement from their parent or care giver**, some children in secondary school will be able to legally consent for themselves. This may include some children who are under 16 but only if they are assessed as having the understanding needed to do so by a school nurse or immuniser. This is called 'Gillick competence.' For more information about this, search consent here: **www.111.wales.nhs.uk** (external site)

## How your school can support the HPV vaccination programme

The relationship between schools and the NHS school nursing immunisation team is vital for protecting the health of future generations. If uptake is high enough the World Health Organization have modelled that it will help to eradicate cervical cancer by the end of the century.

**The following will help to minimise disruption to the school:**

- Ahead of the day of the vaccinations talk to the school nurse or immunisation team to arrange a suitable location and requirements.
- It is important to let parents and carers know which day vaccinations will take place. The consent pack will contain this information. Please ensure the school consent packs are distributed to parents and carers. Communication (e.g., an email or a text) can be sent to parents to remind them of the:
  - vaccination date(s); and
  - date they need to return the consent form by.
- Pupils and their parents/carers may have questions about the vaccine. Let them know that further information is available at: **phw.nhs.wales/HPVvaccine**. You can also access a HPV School Communication Toolkit here. It includes videos and animations available for use in school assemblies, pupil talks or PSE classes.



## How consent is collected:

- Your school may be asked to collect **completed paper consent forms** from parents/carers on behalf of the school nursing or immunisation team.
- Electronic consent forms, where used, are sent directly from the parent/carer to the school nursing or immunisation team.
- Forms should be **returned by the deadline agreed** with the school nurse or immunisation team.

## Who will give the vaccine to the children:

- The programme will be delivered by an NHS employed school nursing or immunisation team.
- They will administer the vaccination according to nationally set standards. NHS vaccinators have appropriate qualifications and training, including safeguarding training. They are also fully trained to answer any questions from pupils and teachers about the HPV vaccine.

## Further information about the HPV vaccine

- More than 280 million doses of the HPV vaccine have been given worldwide, in at least 113 countries.
- The HPV vaccine meets the high UK safety standards, and has been offered to girls in Wales since 2008, and boys since 2019.
- Side effects are usually mild. The most common side effects are a sore/swollen arm, or redness at the site of injection. This usually wears off within a few days. Less common side effects are headaches, nausea and fever. Serious side effects are rare, but can include allergic reactions. Nursing teams are trained to recognise and treat this.
- The safety of all vaccines continues to be monitored by the Medicines and Healthcare products Regulatory Agency (MHRA) through the Yellow Card Scheme. Anybody can report suspected side effects of vaccines and medicines through the Yellow Card scheme. This can be done online at **www.mhra.gov.uk/yellowcard** (external site) or by calling **0800 731 6789** (Monday to Friday, 9am to 5pm).



## A note of thanks

Delivering immunisation programmes through schools is vital for ensuring children and young people have easy access to vaccines. This helps to achieve high uptake of vaccination and reduced inequalities in health for children and young people.

We are grateful for the support of schools in hosting these vaccination sessions, and for communicating to parents and carers when the HPV immunisation sessions are scheduled to take place.

**If you have any enquiries or questions regarding the delivery of the HPV vaccination programme in your school please direct these to the local health board school nursing/immunisation team.**

**Further information on HPV and the vaccine is available at: phw.nhs.wales/HPVvaccine**

Information correct at the time of publication.
For the most up-to-date information, please visit **phw.nhs.wales/vaccines**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Version 2 | January 2025
© Public Health Wales NHS Trust (with acknowledgement to Public Health Scotland and UK Health Security Agency)
ISBN 978-1-83766-280-7

## Sut mae caniatâd yn cael ei gasglu:

- Efallai y gofynnir i'ch ysgol gasglu ffurflenni caniatâd papur wedi'u cwblhau gan rieni/gofalwyr ar ran y tîm nyrsio neu imiwneiddio ysgolion.
- Mae ffurflenni caniatâd electronig, lle cânt eu defnyddio, yn cael eu hanfon yn uniongyrchol gan y rhiant / gofalwr at dîm nyrsio neu imiwneiddio'r ysgol.
- Dylid **dychwelyd y ffurflenni erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno** gyda'r nyrs ysgol neu'r tîm imiwneiddio.

## Pwy fydd yn rhoi'r brechiad i'r plant:

- Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno gan dîm nyrsio neu imiwneiddio'r ysgol sy'n cael ei gyflogi gan y GIG.
- Bydd yn rhoi'r brechiad yn unol â safonau sydd wedi'u pennu yn genedlaethol. Mae gan frechwyr y GIG gymwysterau a hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant diogelu. Maent hefyd wedi'u hyfforddi'n llawn i ateb unrhyw gwestiynau gan ddisgyblion ac athrawon am y brechiad HPV.

## Rhagor o wybodaeth am y brechiad HPV

- Mae mwy na 280 miliwn o ddosau o'r brechiad HPV wedi'u rhoi ledled y byd, mewn o leiaf 113 o wledydd.
- Mae'r brechiad HPV yn bodloni safonau diogelwch uchel y DU, ac mae wedi'i gynnig i ferched yng Nghymru ers 2008, ac i fechgyn ers 2019.
- Mae'r sgil-effeithiau yn ysgafn fel arfer. Y sgîl-effeithiau mwyaf cyffredin yw braich dolurus / chwyddedig, neu gochni ar safle'r pigiad. Mae hyn fel arfer yn diflannu o fewn ychydig ddyddiau. Y sgil-effeithiau llai cyffredin yw cur pen, teimlo'n sâl a thymheredd uchel. Anaml y mae sgîl-effeithiau difrifol yn digwydd ond gallant gynnwys adweithiau alergaidd. Mae timau nyrsio wedi'u hyfforddi i adnabod a thrin hyn.
- Mae diogelwch pob brechiad yn parhau i gael ei fonitro gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn. Gall unrhyw un roi gwybod am sgil-effeithiau posibl brechiadau a meddyginiaethau drwy gynllun y Cerdyn Melyn. Gellir gwneud hyn ar-lein yn



**www.mhra.gov.uk/yellowcard** (safle allanol, Saesneg yn unig) neu drwy ffonio **0800 731 6789** (Dydd Llun i ddydd Gwener, 9yb i 5yh).

## Gair o ddiolch

Mae darparu rhaglenni imiwneiddio drwy ysgolion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael brechiadau'n hawdd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod nifer uchel yn cael eu brechu a llai o anghydraddoldebau iechyd i blant a phobl ifanc.

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth ysgolion wrth gynnal y sesiynau brechu hyn, ac am gyfathrebu â rhieni a gofalwyr pan fydd y sesiynau imiwneiddio HPV yn cael eu cynnal.

**Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu gwestiynau ynglŷn â chyflwyno'r rhaglen frechu HPV yn eich ysgol, cyfeiriwch y rhain at dîm nyrsio/imiwneiddio ysgolion y bwrdd iechyd lleol.**

**Mae rhagor o wybodaeth am HPV a'r brechiad ar gael yn: icc.gig.cymru/brechlynHPV**

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i **icc.gig.cymru/brechlynnau**

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Mae Brechu yn achub bywydau**
**Vaccination saves lives**

Fersiwn 2 | Ionawr 2025
© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda chydnabyddiaeth i Public Health Scotland ac Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU)
ISBN 978-1-83766-280-7

Mae canserau'r pen a'r gwddw yn fwyaf cyffredin ymhlith dynion gyda thua 700 o achosion yn cael diagnosis yng Nghymru bob blwyddyn.

Canser ceg y groth yw'r math mwyaf cyffredin o ganser ymhlith merched o dan 35 oed.

Rhoddir y brechlyn HPV yn rhan uchaf y fraich. Er mwyn rhoi'r warchodaeth orau, dylid ei roi cyn i berson ifanc ddod yn actif yn rhywiol. Felly, mae'n cael ei gynnig i bob person ifanc cyn iddynt ddod i gysylltiad â'r feirws.

Nid yw condomau yn darparu gwarchodaeth lwyr rhag HPV a gan fod llawer o wahanol fathau o'r feirws yma, dylai pobl gymwys gael y brechiad hyd yn oed os ydynt eisoes yn cael rhyw.

Ar gyfer pobl gymwys o dan 25 oed, mae tystiolaeth yn dangos mai dim ond un dos o'r brechlyn HPV sydd ei angen ar gyfer yr amddiffyniad gorau. O fis Medi 2023, dim ond un dos sy'n cael ei gynnig. Mae rhagor o wybodaeth am y newid hwn ar gael yn: **icc.gig.cymru/brechlynHPV**

**Mae'r brechiad HPV yn rhagorol am warchod rhag HPV ac mae'n ddiogel iawn. Mae disgwyl y bydd y brechiad yn arbed miloedd o fywydau bob blwyddyn yn y pen draw.**

Mae rhestr lawn o gynhwysion y brechiad a'r sgil-effeithiau posibl ar gael yn **medicines.org.uk/emc** (safle allanol, Saesneg yn unig) drwy roi 'Gardasil 9' yn y bocs chwilio.

## Pecynnau caniatâd a gwybodaeth am frechiadau HPV

**Bydd pecynnau caniatâd ar gyfer disgyblion a'u rhieni neu ofalwyr** yn cael eu cyflenwi i ysgolion uwchradd cyn y sesiwn brechu HPV sydd wedi'i drefnu yn yr ysgol. Gall hyn fod ar bapur neu mewn fformat digidol.

**Mae pob pecyn caniatâd fel arfer yn cynnwys:**

- **Llythyr (neu e-bost), taflen a ffurflen ganiatâd.** Mae'r llythyr a'r daflen yn rhoi dealltwriaeth i ddisgyblion a rhieni / gofalwyr o'r brechiad a'i fanteision. Mae gwybodaeth yn cael ei darparu i alluogi caniatâd gwybodus i bobl ifanc gael y brechiad HPV. Gofynnir i rai ysgolion anfon y rhain yn electronig.
- Mae'r daflen ar gael mewn **fformatau hygyrch** (gan gynnwys Bras, Print, Hawdd ei Ddarllen, Iaith Arwyddion Prydain a Sain). Dylid cyfeirio rhieni a gofalwyr at: **icc.gig.cymru/brechlynnau/adnoddau-hygyrch**
- **Rhaid llenwi ffurflen ganiatâd cyn rhoi brechiad.** Er ein bod yn argymell bod disgyblion yn cael **cytundeb eu rhiant neu ofalwr**, bydd rhai plant mewn ysgolion uwchradd yn gallu cydsynio'n gyfreithiol drostynt eu hunain. Gall hyn gynnwys rhai plant o dan 16 oed ond dim ond os cânt eu hasesu fel rhai sydd â'r ddealltwriaeth sydd ei hangen i wneud hynny gan nyrs ysgol neu imiwneiddiwr. Gelwir hyn yn 'gymhwysedd Gillick'. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, chwiliwch am ganiatâd yma: **www.111.wales.nhs.uk** (safle allanol)

## Sut gall eich ysgol gefnogi rhaglen frechu HPV

Mae'r berthynas rhwng ysgolion a thîm imiwneiddio nyrsys ysgol y GIG yn hanfodol ar gyfer diogelu iechyd cenedlaethau'r dyfodol. Os yw'r nifer sy'n manteisio'n ddigon uchel mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi modelu y bydd yn helpu i ddileu canser ceg y groth erbyn diwedd y ganrif.

**Bydd y canlynol yn helpu i leihau'r tarfu i ysgolion:**

- Cyn diwrnod y brechiadau siaradwch â'r nyrs ysgol neu'r tîm imiwneiddio i drefnu lleoliad addas a thrafod y gofynion.
- Mae'n bwysig rhoi gwybod i rieni a gofalwyr pa ddiwrnod y bydd y brechiadau'n cael eu cynnal. Bydd y pecyn caniatâd yn cynnwys yr wybodaeth hon. Gwnewch yn siŵr bod y pecynnau caniatâd ysgol yn cael eu dosbarthu i rieni a gofalwyr. Gellir anfon gohebiaeth (e.e. e-bost neu neges destun) at rieni i'w hatgoffa o'r canlynol:
  - o y dyddiad(au) brechu; a
  - o y dyddiad pryd mae angen iddynt ddychwelyd y ffurflen ganiatâd.
- Efallai y bydd gan ddisgyblion a'u rhieni/gofalwyr gwestiynau am y brechlyn. Rhowch wybod iddynt fod rhagor o wybodaeth ar gael yn: **icc.gig.cymru/brechlynHPV**. Mae Pecyn Cymorth Cyfathrebu Ysgol HPV ar gael yma hefyd. Mae'n cynnwys fideos ac animeiddiadau i'w defnyddio mewn gwasanaethau ysgol, sgyrsiau disgyblion neu ddosbarthiadau ABCh.



Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

**Mae Brechu yn achub bywydau**
**Vaccination saves lives**



# Rhaglen Frechu Papilomafeirws Dynol (HPV)

## Dogfen friffio ar gyfer penaethiaid a staff ysgolion

Mae'r ddogfen friffio yma ar gyfer ysgolion am y rhaglen frechu HPV oedran ysgol yng Nghymru.

Gwnewch yn siŵr bod yr holl staff ysgol sydd angen gwybod am y rhaglen yn cael mynediad i'r wybodaeth hon.

**! Mae'r brechiad HPV yn helpu i warchod pobl ifanc rhag canserau sy'n cael eu hachosi gan HPV**

## Cymhwysedd ar gyfer y brechiad HPV

Mae'r brechiad HPV yn cael ei gynnig **am ddim i bob bachgen a merch** rhwng **12 a 13 oed** (blwyddyn ysgol 8).

Bydd pobl ifanc sy'n methu eu brechiad HPV yn yr ysgol yn cael cyfleoedd eraill i gael y brechiad cyn iddynt adael addysg statudol ar ddiwedd blwyddyn 11.

Gall pobl ifanc nad ydynt yn derbyn eu brechlyn HPV yn yr ysgol ei dderbyn yn eu meddygfa hyd at eu pen-blwydd yn 25 oed (i fechgyn dim ond i'r rhai sydd wedi'u geni ar neu ar ol 1 Medi 2006 mae hyn yn berthnasol).

Mae rhai unigolion eraill mewn mwy o berygl o HPV felly maent hefyd yn gymwys i gael y brechiad hwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **icc.gig.cymru/brechlynHPV**

**Mae cymorth ysgolion gyda'r rhaglen frechu HPV yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac yn hanfodol.**

## 3 rheswm dros gael y brechiad HPV:

1. **Mae'n lleihau'r risg o ganser ceg y groth 90%**, yn ogystal â gostwng cyfraddau mathau eraill o ganserau sy'n gysylltiedig â HPV yn ddramatig.
2. Mae HPV yn heintio'r rhan fwyaf o bobl yn ystod eu hoes, ac **mae mwy na 150 o wahanol fathau**.
3. Mae'r brechiad yn **ddiogel, yn effeithiol ac yn hawdd** ei gael.

## Am y brechiad HPV

Mae papilomafeirws dynol (HPV) yn gysylltiedig â datblygiad **ystod o ganserau a dafadennau gwenerol**. Y brechiad HPV yw'r **ffordd fwyaf diogel** o warchod rhag yr afiechydon hyn.

Mae tystiolaeth glir bod y brechiad HPV yn helpu i warchod bechgyn a merched rhag risgiau yn y dyfodol o:

- canser ceg y groth (mewn merched);
- rhai mathau o ganserau'r pen a'r gwddw;
- rhai mathau o ganserau'r anws;
- rhai canserau'r ardal wenerol (er enghraifft y pidyn, y fagina a'r fwlfa); a
- dafadennau gwenerol.